

CYNGOR BRO MORGANNWG

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod Arbennig Hybrid, 12 Ionawr, 2026 am 6:00 p.m.

Mae'r agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd Carys Stallard (Dirprwy Faer yn y Gadair);
Y Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Amelia Collins, Marianne Cowpe, Brandon Dodd, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Gynghorwyr Naomi Marshallsea (Maer) a Rhys Thomas.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3(a) PREMIYMAU AR EIDDO GWAG HIRDYMOR AC AIL GARTREFI (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod y polisi i beidio â chaniatáu unrhyw lefel o ddisgownt ar gyfer anheddau gwag sydd wedi aros felly am 6 mis y cytunwyd arno ar gyfer 2025/26, yn cael ei gymeradwyo ar gyfer 2026/27.

(2) Bod y premiwm eiddo gwag hirdymor o 100% y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2025 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yn cael ei gymeradwyo i'w barhau ar gyfer eiddo o'r fath o 2026/27 sy'n parhau felly am y cyfnod hyd at (ond heb gynnwys) 24 mis.

(3) Cymeradwyo parhau â'r premiwm eiddo gwag hirdymor o 150% y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth, 2025 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ar

gyfer eiddo o'r fath o 2026/27 sy'n parhau felly am gyfnod parhaus o 24 misoedd hyd at (ond heb gynnwys) 36 mis.

(4) Bod y premiwm eiddo gwag hirdymor o 200% a gytunwyd gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth, 2025 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 yn parhau ar gyfer eiddo o'r fath o 2026/27 sy'n parhau felly am gyfnod parhaus o 36 mis neu fwy.

(5) Bod y premiwm o 100% ar gyfer eiddo a feddiannir yn gyfnodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 y cytunwyd arno ar 10 Mawrth, 2025 yn cael ei ailddatgan a'i gymeradwyo i barhau ar gyfer 2026/27.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar ei bolisi ar ddisgowntiau mewn perthynas ag anheddau gwag fel y'u diffinnir yn nosbarthiadau A, B ac C i Reoliadau Treth y Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998 bob blwyddyn. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar ei bolisi ynghylch premiymau mewn perthynas ag eiddo gwag hirdymor ac eiddo a feddiannir yn gyfnodol fel y'u diffinnir yn Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.